LEWIS, DAVID MORGAN (1851 - 1937), athro mewn anianeg a phregethwr

Enw: David Morgan Lewis
Dyddiad geni: 1851
Dyddiad marw: 1937
Priod: Annie Margaret Lewis (née Powell)
Rhiant: Catherine Lewis (née Morgan)
Rhiant: Evan Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: athro mewn anianeg a phregethwr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Gwyddoniaeth a Mathemateg
Awdur: Gildas Tibbott

Ganwyd 27 Medi yn Henllan, fferm fechan rhwng Eglwyswrw a Felindre, gogledd Penfro, yn hynaf o bum plentyn Evan Lewis (1813 - 1896), gweinidog eglwys Annibynnol Brynberian, a'i briod, Catherine Morgan, o blwyf Llangan, ger T -gwyn-ar-Daf, a chwaer i William Morgan, athro yng Ngholeg Caerfyrddin. Cafodd ei addysg gynnar yn ysgol Palmer, Aberteifi, ac yng Ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin. Yn 1872 aeth i Goleg y Drindod, Caergrawnt, lle y graddiodd a'i restru ymhlith y 'wranglers'; yn ddiweddarach bu'n astudio yn y Cavendish Laboratories.

Dechreuodd bregethu'n ieuanc, ac yn 1878 ordeiniwyd ef yn weinidog eglwys Saesneg yr Annibynwyr yn Hirwaun. Wedi bod yno am bum mlynedd rhoes y weinidogaeth i fyny a dychwelyd i Gaergrawnt am flwyddyn arall.

Yn 1884 penodwyd ef yn ddarlithydd mewn anianeg yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, ac yn 1891 yn athro anianeg yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth, lle y bu nes ymddeol ohono yn 1919.

Er iddo adael y weinidogaeth yn r ieuanc, bu'n flaenllaw mewn cylchoedd Annibynnol ar hyd ei oes. Bu'n gadeirydd Undeb yr Eglwysi Annibynnol Saesneg yn Neheudir Cymru ac yn gadeirydd pwyllgorau colegau Caerfyrddin ac Aberhonddu.

Ysgrifennodd gofiant i'w dad, *Cofiant ... Evan Lewis, Brynberian, 1813-96*, a gyhoeddwyd yn 1903. Ar ôl ymddeol, gwnaeth astudiaeth arbennig o hanes ei enwad, ac o emynyddiaeth Gymraeg, yn enwedig emynau Ann Griffiths, a chyhoeddodd amryw erthyglau ar y pynciau hyn mewn cylchgronau, e.e. *Y Llenor*, 1924, *Y Cofiadur*, 1925 a 1934.

Priododd Annie Margaret, merch T. Powell, Carreg Cennen, Llandeilo. Bu farw 28 Gorffennaf a'i gladdu yn Aberystwyth.

Awdur

Gildas Tibbott, (1900 - 1979)

Ffynonellau

D. M. Lewis, *Cofiant y diweddar Barchedig Evan Lewis, Brynberian* (Aberystwyth 1903)

Y Tyst, 5 Awst 1937

The Welsh Gazette, 5 Awst 1937

The Cambrian News and Merionethshire Standard, 6 Awst 1937

The Dragon, Michaelmas 1937

Delweddau

J. Russell & Sons, Prof. David Morgan Lewis

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 76085744

Wikidata: Q20732872

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu